Syniadau A.G.

Tymor y Gwanwyn 2016

Samantha Jesson,Ysgol Eyton, Wirfoddol dan Reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, Wrecsam

Ystwyll a Phentecost

Rhydd y cynlluniau yma gyfle i blant i archwilio themâu sydd yn gysylltiedig â gŵyl yr Ystwyll a'r Pentecost. Gwelir cysylltiadau ag Iddewiaeth ac Islam gyda chyfle i ddatblygu llythrennedd mewn Addysg Grefyddol. Defnyddir y lliw gwyrdd yn yr Eglwys yng Nghymru yn ystod cyfnod Ystwyll ac hefyd yn ystod y tymor wedi'r Pentecost - mae hwn yn cynrychioli bywyd a thyfiant. Gan hynny, bydd arddangosfeydd yn adlewyrchu hyn.

Daw y cyfeiriadau beiblaidd i gyd o'r Beibl Cymraeg Newydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i oedolion i ddod o hyd i'r testun. Croeso i chi i ddefnyddio rhannau o feiblau eraill ac hefyd straeon beiblaidd i addasu y darlleniadau ar gyfer oedran y plant. Mae digon ar gael.

Yr Ystwyll

Yng Nghristnogaeth, cyfeiria yr Ystwyll at sylweddoli fod Iesu yn fab Duw. Yn draddodiadol, bydd eglwysi y gorllewin yn dathlu gŵyl yr Ystwyll ar 6 Ionawr, y deuddegfed dydd ar ôl y Nadolig, dydd Ymweliad y Doethion.

Wythnos 1		
Stori/ Rhagarweiniad		Ymweliad y Doethion (datguddiad o Iesu i'r rhai nad ydynt yn Iddewon)
Cyfeirnod o'r Beibl		Mathew pennod 2 adnodau 1-12
Atgoffa y plant		Mae pob babi yn werthfawr, ble bynnag genir hwy.
Gweithgar-eddau	BC	Creu arddangosfa o amser geni y plant (lluniau y babi, cardiau i fabi newydd, papur lapio anrhegion.) Croesawu babi newydd.
	CS	Defnyddio platiau papur i wneud coron. Rhannu y plât yn wyth rhan, fel torri cacen tra yn osgoi yr ymylon. Torri y plât o'r canol ond nid dros yr ymyl i greu 8 triongl. Plygu y darnau i bwyntio ar i fyny ar ffurff coron. Bydd yr ymyl yn fand i'r pen. Gweler darlun ar dudalen 4.
	Bl 3/4	Pwy ddaeth i ymweld â chi pan gawsoch eich geni? Pa anrhegion gawsoch chi? Ewch o gwmpas yr ysgol i gasglu gwybodaeth. Y plant i greu cwestiynau sydd yn berthnasol i'r wybodaeth gasglwyd.
	Bl 5/6	Edrych ar y testun beiblaidd a phenderfynnu beth sydd wedi ei ychwanegu at y testun drwy draddodiad. Gwneud cofnod (dyddiadur) o ddigwyddiadau a sgyrsiau ar y ffordd i Fethlehem.

Wythnos 2		
Stori/ Rhagarweiniad		Bedydd Iesu (Iesu yn sylweddoli beth yw ei bwrpas)
Cyfeirnod o'rBeibl		Mathew pennod 3 adnodau 13-17 & Marc pennod 1 adnodau 9-13
Atgoffa y plant		Roedd bedydd Iesu yn foment arbennig yn ei fywyd, yn dangos ei fod yn barod i wynebu sialens newydd.
Gweithgar-eddau	BC	Plygwch y papur yn ei hanner, torrwch brint o'ch dwylo i wneud adennydd i golomen. Crogwch ef oddiwrth mobile.
	CS	Trefnwch fedydd yn y dosbarth/eglwys.Y plant i wneud gwahoddiadau, cymryd rôl, gwisgo i fyny a gwneud bwyd i'r parti.
	Bl 3/4	Cynlluniwch ddathliad ar ffurf gŵyl grefyddol. Chwiliwch am ryseitiau addas ar gyfer gwahanol fwydydd traddodiadol sydd yn gysylltiedig â'r dathliad. Lluniwch arddangosfa o fwydydd yr Ŵyl, gan ddefnyddio lluniau ayyb.
	Bl 5/6	Cymharwch y defnydd o ddŵr mewn seremoniau crefyddol - defodau newid bywyd crefyddol. - Pwysigrwydd yr afon Ganges fel man pererindod- Arferiad o olchi traed cyn mynd i mewn i'r mosg, ac eillio pen y babi.

Wythnos 3		
Stori/ Rhagarweiniad		Y Briodas yng Nghana Galilea (gwyrth gyntaf Iesu)
Cyfeirnod o'r Beibl		Ioan pennod 2 adnodau1-12
Atgoffa y plant		Byddwn i gyd yn dathlu adegau arbennig ond byddwn yn eu dathlu mewn gwahanol ffyrdd ac ar adegau gwahanol.
Gweithgar-eddau	BC	Gofynnwch i'r plant i siarad am fwydydd arbennig ar gyfer adegau arbennig. Gofynnwch iddynt rannu bwyd arbennig a dweud pam ei fod yn arbennig. Meddyliwch am bwysigrwydd traddodiad yn eu bywydau. ee penblwydd , partion ayyb.
	CS	Pwy sydd yn cael eu cynnwys mewn priodas? Rhowch wahoddiad i rieni i ddod i siarad am y seremoni/dathliadau. Plant i greu holiadur.
	Bl 3/4	Mewn grwpiau, chwiliwch am wybodaeth am fwyd ar gyfer gwahanol wyliau a dathliadau, gan ddefnyddio ystod o ffynonellau. Cyflwynwch i'r lleill. Sut mae teuluoedd yn ein ysgol yn dathlu priodasau ?
	Bl 5/6	Beth yw ystyr 'gwyrth'? Chwiliwch yn y geiriadur.Trafodwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwyrth a hudoliaeth. Mewn grwpiau darllenwch am enghreifftiau o wyrthiau ac adroddwch yn ôl i'r dosbarth: gan roi y cyd destun, yr angen, a sut y cyflawnwyd hyn a rhan Duw yn y digwyddiad.

Wythnos 4		
Stori/ Rhagarweiniad		Yn y synagog
Cyfeirnod o'r Beibl		Luc pennod 4 adnodau 14-22
Atgoffa y plant		Proffwydoliaeth Eseia yn cael ei gwireddu.
Gweithgar-eddau	B C	Creu sgrôl o bapur hir a roliau cardbord. Copio y geiriau 'Newyddion Da' arno. Siarad am y ffordd yn byddwn yn edrych ar ôl llyfrau gwerthfawr.
	CS	Edrych ar synagog (ar lein/ymweld). Sut mae'r gwahanol fannau yn cael eu gwahanu ? Pwy sydd yn eistedd ymhle ? Ble byddai Iesu yn eistedd i ddarllen ?
	Bl 3/4	Archwiliwch i'r Dydd Saboth yn Iddewiaeth. Beth sydd yn cael ei ganiatáu? Beth fyddwch chi yn ei wneud ar ddydd Sadwrn/Sul ?
	Bl 5/6	Darllenwch adnodau 18-19 – mae Iesu yn darllen y sgrôl, yn dweud wrth bawb mai dyma oedd cynllun Duw ar ei gyfer. Beth yw cynllun Duw ar eich cyfer chi? Ysgrifennwch - ar ffurf adnod.

Penteccost

I'r Cristion, dethlir gŵyl y Pentecost i gofio am yr Ysbryd Glân yn dod ar y disgyblion a dilynwyr eraill Iesu fel ei disgrifir yn llyfr Actau yr Apostolion. Gan hynny diisgrifir y Pentecost weithiau fel penblwydd yr eglwys.

Dethlir y Pentecost 'yr hanner canfed dydd' 7 wythnos ar ôl Sul y Pasg - neu ar yr hanner canfed dydd --felly ceir yr enw.

Wythnos 1		
Stori/ Rhagarweiniad		Disgwyl dyfodiad yr Ysbryd Glan. Daw y Dyrchafael cyn y Pentecost.
Cyfeirnod o'r Beibl		Luc pennod 24 adnodau 45-53
Atgoffa y plant		Esgynnodd Iesu i'r nefoedd, yr adeg hynny credai pobl fod y nefoedd y tu hwnt i'r cymylau, dyna pam y gelwir y dydd yn Ddyrchafael neu esgyn.
Gweithgar-eddau	BC	Gwnewch ' fwrdd i gofio'. Rhowch arno groes, beibl , pabi, a gofyn i'r plant i ddod â lluniau neu eitemau fydd yn eu hatgoffa o bobl arbennig nad ydynt yn eu gweld yn aml (gallant fod yn fyw).
	CS	Fel yr uchod, ysgrifennwch farddoniaeth/gweddïau i ofyn am fendith Duw ar y bobl yma. (Nid oes raid iddynt fod yn bobl sydd wedi marw e.e. milwyr, carcharorion, cleifion).
	Bl3/4	Gwnewch restr o'r ffyrdd fydd yn ein helpu ni i gofio pethau. Defnyddiwch y calendr i ddod o hyd i ddyddiau cofio swyddogol. Gwnewch gynllun ar gyfer diwrnod cofio arbennig. Beth fydd gennym ei angen, bwyta, gwneud, dweud?
	Bl 5/6	Siaradwch am deimladau y disgyblion. a)yn dweud ffarwel wrth Iesu ar ddydd y Dyrchafael b) wrth iddynt gael y profiad o ddigwyddiadau y Pentecost.

Wythnos 2		
Stori/ Rhagarweiniad		Troedigaeth Paul (Stori am rywun yn newid ei fywyd)
Cyfeirnod o'r Beibl		Actau pennod 9 adnodau 1-19
Atgoffa y plant		Ble mae awel Duw yn ein gyrru ni ?
Gweithgar-eddau	BC	Gwnewch gymylau geiriau (maint A2) am 'dda', 'cymwynasgar', 'ffrind'. Y plant i dynnu lluniau i gynrychioli yr rhain ac yna eu haddurno gyda wadin ayyb.
	CS	Rheolau y dosbarth, beth ddylen ni ei wneud? Beth allwn ni ei wneud i wella pethau i eraill? Beth alla'i ei wneud i newid? Targedau personol.
	Bl 3/4	Trafodwch bŵer y gwynt. Sut mae'r gwynt yn effeithio arnom ni ? (melinau, pŵer y gwynt, corwyntoedd) Ym mha ffordd mae gwynt Duw yn gryfach?
	Bl 5/6	Beth wnaeth y prif gymeriad i newid ei fywyd ? Beth oedd yn ei yrru i wneud hyn? Beth ydych chi yn mynd i'w wneud gyda'ch bywyd ? Ble mae gwynt Duw yn eich gyrru chi?

Wythnos 3		
Stori/ Rhagarweiniad		Sacheus (neu stori leol am rhywun yn newid ei fywyd).
Cyfeirnod o'r Beibl		Luc pennod 19 adnodau 1-10
Atgoffa y plant		Mae tân yn glanhau, a rhoi cychwyn newydd.
	BC	Ar demplad fflam, ysgrifennwch eiriau sydd yn disgrifio ffrind da neu enwau ffrindiau. Addurnwch gyda phapur sidan coch oren a melyn.

Gweithgar-eddau	CS	Gwnewch siart 'cyn' ac 'ar ôl' yn dangos Sacheus yn newid ei ymddygiad. Sut fyddwch chi yn ymddwyn pan yn mynd i dŷ rhywun am dê?
	Bl 3/4	Ysgrifennwch lythyr yn holi Sacheus am ei ymweliad. sut oedd o yn teimlo ? Beth achosodd iddo newid? Beth ddwedodd Iesu?
	Bl 5/6	Stori Sacheus, trafodwch y teimladau mewnol ynghyd â'r golwg allanol. Penderfynnwch y math o bobl fyddai yn gwneud cymuned ddelfrydol. Ysytyriwch sut y gallai y rhai cryfaf gefnogi y rhai gwanaf yn y gymuned.

Wythnos 4		
Stori/ Rhagarweiniad		Yr Ysbryd Glan
Cyfeirnod o'r Beibl		Actau pennod 2 adnodau 1-13
Atgoffa y plant		Dethlir y Pentecost, sydd yn Ŵyl Gristnogol 50 diwrnod ar ôl y Pasg. Dyma benblwydd yr eglwys.
Gweithgar-eddau	BC	Cynlluniwch barti penblwydd ar gyfer rhywun sydd yn ymweld â'r ysgol.
	CS	Ewch i ymweld â'r eglwys i edrych am symbolau. Edrychwch ar yr urddwisgoedd a'r darnau crôg. Gofynnwch i'r ficer i egluro y symbolau ar ei stôl ef /hi.
	Bl3/4	Edrychwch ar y calendr i ddod o hyd i'r 50 diwrnod ar ôl y Pasg. Chwiliwch am y symbolau ddefnyddir adeg y Pentecost. Dyluniwch faner ar gyfer yr eglwys gan ddefnyddio y symbolau sydd yn gysylltiedig â'r Pentecost.
	Bl 5/6	Dyluniwch ffenestr (paentiwch ar ffenestr y dosbarth) i ddangos y Pentecost, y gwynt a'r tân a chynrychiolydd yr Ysbryd Glan. Gweler isod.

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o 'Syniadau AG' ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu ;
Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig
Cyfres Ymchwilio i Thema: i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau ac
i Gwestiynau Dyrys.
SAESNEG Amazing Lives (ar gael yn Gymraeg – Am ddawn –Huw J Hughes)
Cyhoeddiadau Uwchradd – What the Welsh Churches say on moral and social issues;
Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.
Cyffredinol: More than Just RE (CEMW Annual Lectures)

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws,
MACHYNLLETH SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk
© MAGC 2016